

TAR cyflogedig

Cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth

Rhaglen addysg gychwynnol i athrawon

Datganiad ar bolisi a blaenoriaethau blwyddyn academaidd 2020–21



TAR cyflogedig

Cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth

Rhaglen addysg gychwynnol i athrawon

Datganiad ar bolisi a blaenoriaethau

blwyddyn academiaidd 2020–21

Cynulleidfa

Y rheini sy'n darparu addysg gychwynnol i athrawon (AGA) gan gynnwys sefydliadau addysg uwch ac ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir; Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA); y rheini sy'n ystyried AGA; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; cymdeithasau proffesiynol ac undebau'r athrawon; adrannau addysg llywodraeth ganolog; partïon eraill sydd â diddordeb.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad ar gyfer pawb sy'n darparu, neu sydd â diddordeb mewn darparu, rhaglenni sy'n ymwneud â chynlluniau hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ac addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru. Mae'n rhoi arweiniad i'r bobl hynny er mwyn iddynt ddeall y polisi a'r blaenoriaethau o ran y ddarpariaeth honno ar gyfer y cyfnod a nodwyd.

Camau i'w cymryd

Rhaid i'r sawl sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â chynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth 2020 roi sylw i'r canllawiau hyn.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Tîm Addysg Gychwynnol Athrawon

Yr Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: ITEducationAddysgGA@llyw.cymru



[@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Dogfennau cysylltiedig

Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2020

Cynnwys

1. Trosolwg a statws	2
2. Lleoedd a gynigir yn 2020/21	2
3. Ceisiadau i'r TAR ar Gyflog	3
4. Argaeledd grantiau cyflog a grantiau hyfforddiant	3
5. Nodiadau ar ddyletswyddau ysgolion i gynnig lleoliadau TAR ar Gyflog	4
6. Gofynion o dan gynllun 2020	4
7. Lleoliad rhan-amser	5
8. Cyfyngiadau ar ymgymryd â'r TAR ar Gyflog	5

1. Trosolwg a statws

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan Reoliad 8(5) o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012. Wrth arfer swyddogaethau yn ymwneud â'r Cynllun, rhaid i unrhyw berson neu gorff roi sylw i'r canllawiau hyn ac ni ddylai wyro oddi wrthynt oni bai ei fod yn gallu darparu cyfiawnhad dros wneud hynny.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r gweithdrefnau polisi yng Nghymru ar gyfer 2020-21 ar gyfer y Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth (EBS) yng Nghymru o fis Ebrill 2020 ymlaen. Mae'n amlinellu hefyd y niferoedd a lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer y grant cyflog a'r grant hyfforddiant sy'n gysylltiedig â lleoliadau fel sy'n ofynnol o dan baragraff 14 o Gynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2020, ynghyd â'r blaenoriaethau a'r gweithdrefnau polisi y mae'n rhaid i ddarparwyr AGA roi sylw iddynt wrth reoli darpariaeth yr EBS.
- 1.3 Bydd cynllun 2020 yn cael ei alw'n TAR ar Gyflog. Dylai'r darparwyr AGA ddarllen y ddogfen hon ochr yn ochr â Chynllun 2020 y cyfeirir ato yn 1.4.
- 1.4 Mae Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2020 yn amlinellu gofynion statudol yr EBS a sut y gweithredir y rhaglen yng Nghymru. Yn 2020/21, bydd yr EBS yn gweithredu ar sail y blaenoriaethau a'r gweithdrefnau polisi a nodir yn y ddogfen hon.

2. Lleuedd a gynigir yn 2020/21

- 2.1 Ar gyfer 2020/21, mae'r lleuedd TAR ar Gyflog canlynol ar gael ar 1 Ebrill 2020 neu ar ôl hynny (mae pob lleoliad a chyllid cysylltiedig yn para dwy flynedd):
 - 2.1.1 Uchafswm o 20 o leoedd i gychwyn ar 1 Ebrill 2020 ar gyfer ysgolion uwchradd a gynhelir i gefnogi athrawon newydd sy'n hyfforddi mewn pwnc gwyddoniaeth mewn ysgolion uwchradd. Bydd y lleuedd hyn yn cael eu cefnogi gyda grant hyfforddiant o hyd at £4,500 tuag at gostau hyfforddiant a chyfraniad grant cyflog o 50% o bwynt 1 ar raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso (a osodir gan y strwythur cyflog cenedlaethol ar gyfer athrawon yng Nghymru) ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg; gwneir cyfraniad o 55% ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg.
 - 2.1.2 Uchafswm o 70 o leoedd i gychwyn ar 1 Medi 2020 ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir. Bydd lleoliadau ysgolion uwchradd ar gael yn y pynciau canlynol; Gwyddoniaeth, Mathemateg a Chymraeg. Bydd y pynciau a gynigir yn cael eu cadarnhau maes o law (bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddarau). Bydd lleuedd cynradd yn cael eu cefnogi gyda grant hyfforddiant o hyd at £4,500. Bydd lleuedd uwchradd yn cael eu cefnogi gyda grant hyfforddiant o hyd at £4,500 tuag at gostau hyfforddiant a chyfraniad grant cyflog o 50% o bwynt 1 ar raddfa gyflog athrawon

heb gymhwyso (a osodir gan y strwythur cyflog cenedlaethol ar gyfer athrawon yng Nghymru) ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg; gwneir cyfraniad o 55% ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

3. Ceisiadau i'r TAR ar Gyflog

- 3.1 Rhaid i bob cais gael ei wneud trwy'r darparwr AGA. Bydd y darparwr AGA yn gweithio gyda'r consortia perthnasol i fanteisio ar eu gwybodaeth a'u harbenigedd rhanbarthol i nodi anghenion recriwtio a'r meysydd recriwtio â blaenoriaeth yn eu rhanbarthau er mwyn nodi pa geisiadau i'w cefnogi o dan y TAR ar Gyflog. Bydd y darparwr AGA yn gosod y dyddiad terfyn ar gyfer derbyn ceisiadau ac yn sicrhau bod yr holl ddatganiadau a gwiriadau diogelu angenrheidiol wedi'u cyflawni.
- 3.2 Y darparwr AGA fydd yn gyfrifol am fynd i'r afael ag ymholiadau ynghylch y meini prawf ymgeisio, gan gynnwys cydnawsedd cymwysterau gradd yr ymgeisydd, ond fe'i hanogir i alluogi'r consortia i ateb unrhyw gwestiynau a ddaw i law o bosib.
- 3.3 Dylid nodi y croesewir ceisiadau am leoliadau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn enwedig.
- 3.4 Gall fod sawl lleoliad TAR ar Gyflog mewn unrhyw ysgol unrhyw bryd. Bydd angen i'r ysgol, y darparwr AGA a'r consortia weithio gyda'i gilydd i ystyried effaith mwy nag un lleoliad EBS ar yr ysgol a'r athrawon dan hyfforddiant a leolir yno. Bydd hyn yn sicrhau bod ansawdd yr hyfforddiant y byddai pob athro dan hyfforddiant yn ei dderbyn yn ystod ei leoliad yn ei alluogi i gwblhau'r cwrs astudio a chyflawni'r safonau penodol ar ddiwedd ei leoliad.

4. Argaeledd grantiau cyflog a grantiau hyfforddiant

- 4.1 Mae grantiau hyfforddiant yn 2020/21 ar gael i'r darparwr AGA at ddibenion y TAR ar Gyflog i dalu costau'r hyfforddiant yn llawn neu'n rhannol. Bydd llythyr cynnig grant yn cael ei gyflwyno i'r darparwr hyfforddiant yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae grantiau hyfforddiant ond ar gael ar gyfer y lleoedd TAR ar Gyflog a nodir ym mharagraffau 2.1.1 a 2.1.2.
- 4.2 Yn achos lleoliad rhan-amser, bydd y cyfraniad grant cyflog yn cael ei dalu ar gyfradd gyfwerth, pro rata. Fodd bynnag, rhaid ystyried y canllawiau ym mharagraff 7.1.
- 4.3 Gall Gweinidogion Cymru ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwr AGA ddychwelyd unrhyw grant hyfforddiant neu grant cyflog, neu ran ohono, os bydd y lleoliad, am unrhyw reswm, yn para'n llai na'r cyfnod a nodwyd pan wnaed y grant. Bydd y swm y bydd hi'n ofynnol ei ddychwelyd ar gyfer unrhyw grant sydd ar gael yn cyfateb i unrhyw gyllid grant nad oedd wedi'i ddefnyddio pan ddaw'r lleoliad i ben.

- 4.4 Mae grantiau cyflog yn 2020/21 ar gael ar gyfer ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n gweithredu lleoliadau TAR ar Gyflog. Maent yn cynrychioli cyfraniad at gostau'r ysgol o gyflogi unigolion ar y lleoliadau hynny. Nid talu'r holl gostau yw'r bwriad, ac nid yw'n daliad i'r unigolyn dan sylw.

5. Nodiadau ar ddyletswyddau ysgolion i gynnig lleoliadau TAR ar Gyflog

- 5.1 Rhaid i bob ysgol a gynhelir sy'n cyflogi athrawon dan hyfforddiant ar leoliad TAR ar Gyflog dalu cyflog ac unrhyw gostau eraill a osodir gan y strwythur cyflog ac amodau cenedlaethol ar gyfer athrawon yng Nghymru i'r athro dan hyfforddiant, i'w talu ar bwynt 1 neu uwch ar raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso, a chydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth a gofynion cyflogaeth eraill sydd ar waith ar hyn o bryd.
- 5.2 Mae'n ofynnol i ysgolion gyflogi pob athro dan hyfforddiant ar y rhaglen am y cyfnod llawn, a rhaid iddynt gadarnhau cymeradwyaeth o leoliad a'u statws cyflogaeth i'r darparwr AGA cyn i leoliad gychwyn. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i bob lleoliad, waeth a yw'n derbyn cyllid grant ai peidio. Ni fydd y darparwr AGA yn gwneud unrhyw daliadau grant cyflog hyd nes iddo dderbyn y cadarnhad hwn. Dylid atal neu dynnu cymeradwyaeth o le yn ôl os na fydd y gofyniad hwn wedi'i fodloni. Ni fydd ceisiadau wedi'u hunanariannu gan unigolion yn cael eu hystyried o dan unrhyw amgylchiadau.
- 5.3 Rhaid i ysgolion gofrestru unigolion sy'n ymgymryd â lleoliad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg o dan y Categori Cymorth Dysgu cyn iddynt gychwyn eu cyflogaeth; mae hwn yn ofyniad cyfreithiol statudol.
- 5.4 Ar leoliad, bydd angen cymorth, arweiniad a mentora ychwanegol ar unigolion i'w galluogi i gwblhau'r cwrs astudio a chyflawni'r safonau penodol, Safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC), ar ddiwedd eu lleoliad. Rhaid i drefniadau gweithio yn yr ysgol roi cyfle iddynt wneud hyn, a dylid cytuno ar hyn gyda'r darparwr AGA.
- 5.5 Bydd ysgolion yn cytuno a llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth priodol gyda'r darparwr AGA a fydd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'r darparwr AGA.
- 5.6 Rhaid i ysgolion gyflogi unigolion ar leoliad TAR ar Gyflog sy'n gallu addysgu pynciau y maent yn gymwys i'w haddysgu ac a addysgir fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol neu i lefel arholiad cyhoeddus.

6. Gofynion o dan gynllun 2020

- 6.1 Mae'r gofynion statudol ar gyfer darparu rhaglenni AGA achrededig yn nodi bod rhaid i bob athro dan hyfforddiant gael profiad mewn o leiaf ddwy ysgol yn ei lleoliadau addysgu ymarferol. Nid yw hyn mor syml mewn hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth, lle mae'r athro dan hyfforddiant yn cael ei gyflogi gan ysgol. Fodd bynnag, gellid ystyried y defnydd o ysgolion lleoliad eraill, amser a dreulir mewn ysgolion o fewn clwstwr o

ysgolion neu ysgol bartner arweiniol yn gweithio o fewn partneriaeth y Darparwr AGA. Bydd yr ail leoliad ysgol yn cael ei gytuno gan yr ysgol, Y consortia a'r darparwr AGA.

7. Lleoliad rhan-amser

- 7.1 Wrth ystyried lleoliadau rhan-amser, rhaid i ysgolion, y consortia a'r darparwr AGA drafod y cais ac a fyddai modd i'r athro dan hyfforddiant gael cyfle i gyfrannu cymaint â phosibl at bob agwedd ar waith yr ysgol a gallu cyflawni SAC. Mae'n annhebygol y byddai'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser, beth bynnag fo'u profiad addysgu blaenorol, yn gallu cyflawni SAC trwy'r EBS. Fodd bynnag, bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan yr ysgol, y consortia a'r darparwr AGA fesul achos.

8. Cyfyngiadau ar ymgymryd â'r TAR ar Gyflog

- 8.1 Rhaid i'r darparwr AGA, y consortia a'r ysgol sicrhau y bydd unrhyw leoliad yn galluogi'r athro dan hyfforddiant i gyflawni'r safonau penodol, Safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC), ar ddiwedd ei leoliad. Rhaid i'r darparwr AGA sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant, yn ystod eu lleoliad, yn derbyn yr hyfforddiant yn unol â'r rhaglen AGA achrededig i gyflawni'r SAC. Felly, y darparwr AGA fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar a fydd lleoliad yn cychwyn.
- 8.2 Byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd a'r ysgol dan sylw fodloni'r holl ofynion mynediad eraill. Y consortia a'r darparwr AGA fydd yn penderfynu a ddylid cefnogi cais, yn ddibynnol ar y blaenoriaethau recriwtio a nodir gan y consortia.
- 8.3 Ni all hyfforddiant mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) neu Sefydliad Addysg Bellach fod yn rhan o raglen EBS gymeradwy gan na fydd hyn yn galluogi'r athro dan hyfforddiant i gyflawni SAC.

**Y Tîm Addysg Gychwynnol i Athrawon
Yr Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Ionawr 2020**